# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 2 Mai 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

## 134(v4)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

(45 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Caffael Cyhoeddus

(30 munud)

**Yn unol â Rheol Sefydlog 11.15(i), mae'r Pwyllgor Busnes wedi penderfynu y cynhelir unrhyw bleidlais angenrheidiol ar y cynnig o dan eitem 6 ar unwaith wedi i'r eitem honno i ben.**

## 6 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad 01-18 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9

(15 munud)

**NDM6710** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Adroddiad 01-18 gyda'r adroddiad gan Syr John Griffith Williams QC o dan baragraff 8.6 o'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion erbyn Aelodau'r Cynulliad - a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 18 Ebrill 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9.

2. Yn cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad bod achos o dorri amodau wedi ei ganfod a phenderfynu y dylai'r Aelod, o dan Reol Sefydlog 22.10 (i) a (iii) gael ei geryddu a'i wahardd o drafodion y Cynulliad am y cyfnod o saith niwrnod calendr yn syth ar ôl derbyn y cynnig hwn.

## 7 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Tlodi misglwyf a stigma

(60 munud)

**NDM6695**

Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn nodi gwaith ymchwil gan Plan International UK ar dlodi misglwyf a stigma, sy'n amcangyfrif bod un ym mhob 10 o ferched yn y DU wedi methu â fforddio cynhyrchion misglwyf.

2. Yn croesawu'r camau y mae sefydliadau yng Nghymru yn eu cymryd, gan gynnwys Periods in Poverty, Wings Cymru, The Red Box Project, Ymddiriedolaeth Trussell ac eraill, i fynd i'r afael â mater hwn.

3. Yn nodi'r adroddiad terfynol gan weithgor craffu cyngor Rhondda Cynon Taf a sefydlwyd i ddelio â darparu cynhyrchion misglwyf am ddim mewn ysgolion.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ystyried ymchwil presennol a newydd ar effaith bosibl tlodi misglwyf a stigma ar ddysgu;

b) ystyried galwadau i wella addysg ar y pwnc a chynnig cynhyrchion misglwyf am ddim mewn sefydliadau addysg; ac

c) nodi ffyrdd i sicrhau bod cynhyrchion misglwyf ar gael i fanciau bwyd Cymru.

Plan International UK - 1 in 10 girls have been unable to afford sanitary wear (Saesneg yn unig)

Cyngor Rhondda Cynon Taf - Adroddiad terfynol y gweithgor craffu sy'n ymdrin â darparu cynhyrchion misglwyf am ddim mewn ysgolion (Saesneg yn unig)

**Cefnogwyr:**
David Rees (Aberafan)
Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni)
Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)
Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)
John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)
Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)
Leanne Wood (Rhondda)
Mick Antoniw (Pontypridd)
Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)
Sian Gwenllian (Arfon)
Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)
Vikki Howells (Cwm Cynon)

## 8 Dadl Plaid Cymru – Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a datganoli

(60 munud)

**NDM6712** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

2. Yn nodi ymhellach fod y cytundeb yn gwneud y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) a basiwyd gan fwyafrif yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn afraid.

3. Yn gresynu at y ffaith bod y cytundeb yn rhoi feto dros feysydd deddfwriaeth ddatganoledig i Senedd y DU.

4. Yn gresynu ymhellach at y ffaith bod y cytundeb yn tanseilio Papur Gwyn Llywodraeth Cymru-Plaid Cymru sy'n datgan "na ddylai ymadawiad y DU o’r UE arwain at Lywodraeth y DU yn crafangu pwerau datganoledig yn ôl. Bydd unrhyw ymgais o’r fath yn cael ei gwrthwynebu’n gadarn gennym".

5. Yn galw am bleidlais ystyrlon ar y cytundeb yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

European Union (Withdrawal) Bill (Saesneg yn unig)

Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)

Papur Gwyn: Diogelu Dyfodol Cymru – Pontio o’r Undeb Ewropeaidd i berthynas newydd ag Ewrop

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu:

a) y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael);

b) y bydd hyn yn amddiffyn marchnad fewnol y DU ac yn sicrhau na fydd rhwystrau newydd yn cael eu creu o fewn y DU ar gyfer defnyddwyr a busnesau;

c) bod hyn yn golygu y bydd y mwyafrif llethol o bwerau'r UE sy'n croestorri â chymwyseddau datganoledig yn mynd yn uniongyrchol i seneddau a chynulliadau datganoledig pan fydd y DU yn gadael yr UE;

d) y ddyletswydd a osodir ar Weinidogion y DU i geisio cytundeb y deddfwrfeydd datganoledig bob tro y maent yn bwriadu gwneud rheoliadau i roi maes polisi o dan y pwerau sydd wedi'u rhewi yng nghymal 11;

e) y terfyn amser a gyflwynwyd ar y cyfyngiad dros dro ar gymhwysedd datganoledig; ac

f) bod hyn yn golygu y bydd Llywodraeth Cymru bellach yn argymell bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n pasio cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Bil (Ymadael) yr UE.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Dileu popeth ar ôl pwynt 2 a rhoi yn ei le:

3. Yn cytuno bod y canlyniad cadarnhaol hwn i'r negodiadau â Llywodraeth y DU yn diogelu pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol dros bolisïau datganoledig yn yr amgylchiadau sy'n newid sydd wedi'u creu gan Brexit ac yn cyfnerthu Confensiwn Sewel, ar sail y sefyllfa ddiofyn bod angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer newidiadau i gymwyseddau'r Cynulliad.

4. Yn croesawu'r ffaith y caiff unrhyw fframweithiau gan y DU gyfan i ddisodli fframweithiau presennol yr UE eu negodi'n rhydd rhwng y llywodraethau ac y byddant yn ddarostyngedig i Gonfensiwn Sewel; a thra bo'r fframweithiau hyn yn

cael eu negodi, na fydd unrhyw Lywodraeth, gan gynnwys Llywodraeth y DU mewn perthynas â Lloegr, yn gallu cyflwyno deddfwriaeth sy'n gwyro oddi ar y sefyllfa bresennol.

5. Yn nodi ymhellach y caiff y Cynulliad Cenedlaethol y cyfle am bleidlais ystyrlon ar y cytundeb pan fydd yn ystyried y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sydd i'w gyflwyno gan Lywodraeth Cymru.

## 9 Cyfnod Pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6711** Rhianon Passmore (Islwyn)

Gwlad y gân: datblygu strategaeth addysg cerdd i Gymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 8 Mai 2018

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 25/04/2018 i'w hateb ar 02/05/2018

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

1 OAQ52077

Pa gamau pellach y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wella diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

2 OAQ52083

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am rôl y bartneriaeth i gyflenwi'r metro yn y broses o sicrhau trafnidiaeth integredig ar gyfer Caerdydd?

**Julie Morgan** *Gogledd Caerdydd*

3 OAQ52093

Pa gynlluniau sydd gan Ysgrifennydd y Cabinet i ddatblygu trafnidiaeth integredig yng Nghaerdydd?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

4 OAQ52066

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu'r cymorth sydd ar gael i fusnesau yng nghanolbarth Cymru i ehangu eu gweithrediadau?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

5 OAQ52069

Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cynnal ynghylch bargen ddinesig rhanbarth Bae Abertawe?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

6 OAQ52092

Beth y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i hyrwyddo ei chynllun gweithredu economaidd ymhlith yn y gymuned fusnes?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

7 OAQ52073

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fetro gogledd Cymru?

**Hefin David** *Caerffili*

8 OAQ52089

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am waith cynllunio ar gyfer camau nesaf metro de Cymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

9 OAQ52078

Tynnwyd yn ôl

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddatblygu economi Dwyrain Abertawe?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

**10** OAQ52074

Beth yw blaenoriaethau Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer gwella gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghwm Cynon?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

**11** OAQ52082

Tynnwyd yn ôl

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gymorth ar gyfer y sector gweithgynhyrchu ym Merthyr Tudful a Rhymni?

**Hefin David** *Caerffili*

**12** OAQ52091

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddarparu ar gyfer busnesau y mae gwaith ffordd i liniaru mannau cyfyng yng Nghaerffili yn effeithio arnynt?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

**13** OAQ52067

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddiogelwch ar y ffyrdd yng Ngorllewin Clwyd?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

**14** OAQ52071

Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i dyfu sector twristiaeth yr economi dros y 12 mis nesaf?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

**15** OAQ52096

Pa asesiad y gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet o sut y bydd y llwybr coch arfaethedig drwy Sir y Fflint yn integreiddio'r rhwydwaith trafnidiaeth ehangach cyn penderfynu ar y llwybr a ffefrir?

## Cwnsler Cyffredinol

**Bethan Sayed** *Gorllewin De Cymru*

**1** OAQ52084

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am waith y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru?

**Leanne Wood** *Rhondda*

**2** OAQ52094

Pa gyngor y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i ddarparu i Lywodraeth Cymru ar y sail gyfreithiol ar gyfer y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)?

**David Rees** *Aberafan*

**3** OAQ52085

Pa sylwadau cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cyflwyno mewn perthynas ag apeliadau yn erbyn penderfyniad Arolygiaeth Gofal Cymru i dynnu statws cofrestredig yn ôl o feithrinfeydd a chanolfannau gofal

plant?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

4 OAQ52087

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i Lywodraeth Cymru ynglyn â'r ddadl ar adroddiad ymchwiliad yr Ysgrifennydd Parhaol a gynhaliwyd ddydd Mercher 18 Ebrill 2018?

**David Rees** *Aberafan*

5 OAQ52086

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion y gyfraith Llywodraeth y DU a Llywodraaeth yr Alban ar ôl cyfeirio'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) at y Goruchaf Lys?

**Leanne Wood** *Rhondda*

6 OAQ52095

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o'r potensial ar gyfer hawl ddigolledu gyfreithiol o dan Gonfensiwn Sewel?

**Bethan Sayed** *Gorllewin De Cymru*

7 OAQ52097

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o'r rhwystrau cyfreithiol sy'n atal Llywodraeth Cymru rhag ceisio datganoli pwerau deddfwriaethol sy'n ymwneud â lles a diogelwch cymdeithasol?

**Lee Waters** *Llanelli*

8 OAQ52098

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o sut y gellir defnyddio technoleg i wneud cyfreithiau gwell?